Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

| RHYBUDD 0 GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR ADFYWIO | REGENERATION COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 14 CHWEFROR 2018 at 2.00 o'r gloch yp | WEDNESDAY, 14 FEBRUARY, 2018 at 2.00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |

| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516 | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU / MEMBERS:**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth/Chairman of the Trust** | **T Ll Hughes MBE** |
| **Is-Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth/Vice-Chairman of the Trust** | **Richard O Jones** |

**John Griffith**
**Richard Griffiths**
**Carwyn Jones**
**R.Meirion Jones**
**Eric Wyn Jones**
**Bob Parry OBE**
**Bryan Owen**
**J A Roberts**
**Alun Roberts**
**Ieuan Williams**

# R H A G L E N

**1** **ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd.

**2** **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd.

**3** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**4** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 2)

Cyflwyno cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Adfywio a gafwyd ar 24 Chwefror, 2017.

*(Mabwysiadwyd y cofnodion gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol llawn a gafwyd ar 18 Ebrill, 2017).*

**5** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 3 - 4)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**6** **CEISIADAU GRANTIAU MAWR 2018/19** (Tudalennau 5 - 512)

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

# Pwyllgor Adfywio

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2017

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr. Robert G Parry OBE FRAgS (Cadeirydd)<br>Mr. Alwyn Rowlands (Is-gadeirydd)<br><br>Y Mri. John Griffith, T Ll Hughes MBE, W T Hughes, Victor Hughes, Carwyn Jones a R. Meirion Jones. |
| **WRTH LAW:** | Trysorydd<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt yma yn ôl teitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Rheolydd Grantiau (JW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Mri J Arwel Roberts, Ieuan Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. T. Victor Hughes – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn<br>Mr. T.Ll. Hughes – Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn |

---

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Cafwyd datganiadau o ddiddordeb gan :-

Mr. Alwyn Rowlands – datganiad o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2017/18 – Cais gan Ganolfan Hamdden Biwmares a'r cylch ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar yr eitem.

Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn - datganiad o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2017/18 – Cais gan Gwmni Tref Llangefni ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar yr eitem.

Is-Gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn - datganiad o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2017/18 – Cais gan Gyngor Tref Caergybi ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar yr eitem.

**2. COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror, 2017.

**3. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a oedd ynghlwm."**

## 4 CEISIADAU AM GRANTIAU MAWR 2017/18

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Trysorydd bod 31 o geisiadau wedi dod i law a'u trafod gan y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 10 Chwefror, 2017. Penderfynodd y Pwyllgor roi 12 o'r ceisiadau ar restr fer ar gyfer eu hasesu'n fanylach. O ran yr 19 cais arall, ystyriwyd bod 9 yn addas fel ceisiadau ar gyfer grantiau Hamdden a Chymunedol (hyd at £8,000) a bod yr ymgeiswyr wedi cael gwybod y bydd eu ceisiadau'n cael eu trosglwyddo i'r broses honno. Ni chafodd y 10 cais arall eu cefnogi ac mae'r ymgeiswyr wedi cael gwybod am benderfyniad y Pwyllgor.

Cafwyd trafodaeth fanwl mewn perthynas â'r 12 cais a oedd ar y rhestr fer a **PHENDERFYNWYD argymell i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn yn y cyfarfod nesaf :-**

- **Bod y 12 cais am grant a oedd ar y rhestr fer yn cael eu cefnogi;**
- **Bod y Trysorydd yn cyflwyno adroddiad i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn gyda'r symiau a argymhellwyd ac a gytunwyd gan y Pwyllgor Adfywio.**

**Y Cynghorydd Robert G Parry OBE FRAgS**
**Cadeirydd**

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

**GRANTIAU MAWR 2018/19 /**
**LARGE GRANTS 2018/19**

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

<table>
<tr><td colspan="2">Paragraff(au) Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) 14 Schedule 12A Local Government Act 1972</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y PRAWF – THE TEST</td></tr>
<tr><td>Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn agored ac yn dryloyw ynghylch sut mae ei ' cronfeydd yn cael eu defnyddio.<br><br>The Trust is open and transparent about how its' funds are being used.</td><td>Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Mae'r adroddiad sy'n atodol yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif.<br><br>The attached report contains commercially sensitive information.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/~~llai o bwys~~ na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilëwch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/~~does not outweigh~~ the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate]</td></tr>
</table>

Document is Restricted

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank